**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Kermode (Maer)
Y Cynghorydd Val Simmons (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Ivor Beech
Y Cynghorydd Jackie Burnham
Y Cynghorydd Ann Davies
Y Cynghorydd Mike Elgin
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Y Cynghorydd Gareth Rowlands
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Rob Williams
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

Roedd 4 aelod o'r cyhoedd yn bresennol, gan gynnwys Tony Hepton a Wayne Hughes o Glwb Pêl-droed Tref Rhuddlan a Dean Martin o Glwb Pêl-droed Dinas Llanelwy.

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Reg Davies

Cafodd y cyfarfod ei recordio o'r pwynt hwn (sain yn unig)

**2. Datgan Buddiant**
Y Cynghorydd Arwel Roberts fel aelod o Bwyllgor Cynllunio CSDd ac mewn cysylltiad â'r eitem ar Gae'r Llyngesydd.
Y Cynghorwyr Mike Kermode, Jackie Burnham, Mike Elgin a Gareth Rowlands, mewn cysylltiad â'r eitem ar Gae'r Llyngesydd.

**3. Materion Brys**
Dim

**4. Materion yr Heddlu**

Roedd yr Arolygydd Kevin Smith wedi anfon ei ymddiheuriadau ac roedd wedi anfon neges e-bost at y Clerc. Yn ystod y tri mis diwethaf, cafodd 70 digwyddiad eu riportio ond nid oedd yr Heddlu yn ystyried eu bod yn ddigwyddiadau arwyddocaol, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gofynnwyd i'r Aelodau ffonio 101 yn uniongyrchol i riportio digwyddiadau, fel y gall yr heddlu eu cofnodi a'u hychwanegu at yr ystadegau.

**5a. Cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2024.**
Nodwyd rhai mân newidiadau/gwallau teipio.
Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid cymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir ar ôl cywiro'r newidiadau, eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Kermode. **Penderfynwyd.**

**Adroddiad ar Gynnydd ar yr uchod**
i) Roedd Gwasanaeth Llyfrgelloedd CSDd wedi anfon Cytundeb Lefel Gwasanaeth ond roedd angen rhai newidiadau felly bydd adroddiad am hyn yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.
Ii) Roedd y ddyfais dangos cyflymder (SID) wedi cael ei hanfon i gael ei thrwsio.
iii) Yn aros am benderfyniad ynglŷn â grant ar gyfer y digwyddiad a gynhelir yn yr haf ar Gae'r Llyngesydd.
iv) Bysiau Arriva ddim yn aros yn Tweedmill – anfonwyd llythyr yn unol â chyfarwyddyd yr Aelodau.
v) Roedd y mater yn ymwneud â llifoleuadau yr Ardal Chwaraeon Amlbwrpas (MUGA) wedi'i ddatrys.
vi) Derbyniwyd bagiau baw ci ac maent wedi'u rhoi yn y Llyfrgell ar gyfer eu dosbarthu.
vii) Cytunodd yr Aelodau i ddarparu diodydd poeth a lluniaeth ysgafn yn y digwyddiad i nodi 80 mlwyddiant D Day. **Penderfynwyd**.
Roedd cynghorydd wedi bod mewn cysylltiad â'r Lleng Brydeinig ac wedi cael hanes preswylwydd lleol yn ardal Rhuddlan a oedd wedi goroesi digwyddiadau D Day ond roedd yn annhebygol o ddod i'r digwyddiad am resymau iechyd.

**5b. Cofnodion y Gweithgor Diogelwch y Ffyrdd a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024**
Cyngiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan y Cynghorydd Mike Elgin, eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd.**
**Adroddiad ar Gynnydd yr uchod.**
Cystadleuaeth llunio poster – heb dderbyn ateb gan Ysgol y Castell hyd yma.

**6. Cae'r Llyngesydd – ailystyried penderfyniad mis Chwefror.**
Croesawodd y Maer gynrychiolwyr clybiau pêl-droed Tref Rhuddlan a Dinas Llanelwy ar gyfer yr eitem hon.
Yng nghyfarfod Cyngor y Dref ar 8 Chwefror 2024, cytunwyd mewn egwyddor y dylid rhoi caniatâd i Glwb Pêl-droed Tref Rhuddlan ddefnyddio Cae'r Llyngesydd, yn amodol ar dderbyn rhagor o wybodaeth am eu gofynion gwahanol, a'r cyfleoedd ariannu. Fodd bynnag, yn unol â Rheolau Sefydlog 7(a) a (b) y Cyngor mewn perthynas â'r penderfyniadau blaenorol, roedd chwech o'r cynghorwyr o'r farn bod y penderfyniad wedi'i wneud heb roi

ystyriaeth lawn i'r holl faterion perthnasol a chynigwyd y dylid ailedrych ar y mater. Mae Swyddog Monitro CSDd wedi cynghori y gall unrhyw gynghorwyr sy'n datgan buddiant personol ar faterion yn ymwneud ag agosrwydd eu heiddo, neu aelodaeth o fudiadau eraill, drafod y mater hwn a bwrw pleidlais.

Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu adroddiad a oedd yn crynhoi manteision ac anfanteision y mater. Un o'r prif bryderon oedd sail gwreiddiol cael y cae yn rhodd, gan fod gweithred y trawsgludiad yn nodi "Caiff y Cyngor ddal ….y tir a gaiff ei ddiogelu trwy hyn …. at ddibenion maes chwaraeon cyhoeddus ar gyfer plwyf dywededig Rhuddlan". Ymhlith y pryderon eraill a fynegwyd oedd y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan y Cyngor yn 2019 i beidio â chynnig prydles ar ran o'r cae i Glwb Pêl-droed y Dreigiau/ Dragons FC, y posibilrwydd y gallai timau hŷn ddiraddio arwyneb y cae, y ffaith mai 3 o'r chwaraewyr yn unig sy'n byw yn Rhuddlan, problemau parcio posibl, a'r posibilrwydd y clywir pobl yn rhegi/iaith anweddus yn agos at ardal chwarae'r plant.

Rhoddwyd digon o gyfle i gynrychiolwyr Clwb Pêl-droed Tref Rhuddlan gyflwyno eu hachos ar gyfer defnyddio'r cae a sut y byddai'n cael ei ddatblygu gyda draenio gwell, ffensys, llochesi, eisteddle fach, ac ati, a fyddai'n cael eu hariannu gan grantiau Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Yna cafwyd trafodaeth hir a manwl a rhoddwyd cyfle i bawb fynegi eu barn.

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin y dylid cadw Cae'r Llyngesydd at "ddiben maes chwaraeon cyhoeddus" fel y disgrifiwyd yn y trawsgludiad ac felly y dylid gwrthod cais Clwb Pêl-droed Tref Rhuddlan. Eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands.

Cafwyd trafodaeth bellach ar faterion yn ymwneud â'r defnydd hanesyddol o'r cae ar gyfer chwarae pêl-droed a mynegwyd pryderon ynglŷn â chymharu'r trefniadau yng nghae Clwb Pêl-droed Dinas Llanelwy, a'r posibilrwydd o gyflwyno newidiadau tebyg o bosibl ar Gae'r Llyngesydd.

Cynigiwyd gwelliant gan y Cynghorydd Bleddyn Williams, sef petai Cyngor y Dref yn gwrthod caniatáu i Glwb Pêl-droed Rhuddlan ddefnyddio'r cae, yna y dylai'r Cyngor roi cymorth i'r clwb ddod o hyd i leoliad arall ynghyd â chynnig cefnogaeth ariannol iddo. Dywedodd y Maer fod angen i'r gwelliant nodi swm ariannol penodol gan Gyngor Tref Rhuddlan er mwyn i'r aelodau bleidleisio dros y gwelliant. Dywedodd y Maer na ellid derbyn ymrwymiad ariannol penagored. Awgrymodd y Cynghorydd Arwel Roberts swm o £50,000. Cafodd hyn ei gynnwys yng nghynnig y Cynghorydd Bleddyn Williams a phleidleisiwyd ar y cynnig. Eiliwyd y gwelliant gan y Cynghorydd Arwel Roberts. **Pleidleiswyd yn erbyn y gwelliant.**

Cynigiodd y Cynghorydd Ann Davies welliant arall, sef y dylid gohirio'r drafodaeth am y tro er mwyn gofyn am rhagor o gyngor cyfreithiol. **Ni chafodd y cynnig ei eilio.**

Gan droi'n ôl at y cynnig gwreiddiol gan y Cynghorydd Elgin, gofynnodd y Maer am gofnodi'r bleidlais, sef 6 o blaid a 4 yn erbyn y cynnig. **Penderfynwyd**. Pleidleisiodd y canlynol o blaid y cynnig: y Cynghorwyr Jackie Burnham, Mike Elgin, Mike Kermode, Arwel Roberts, Gareth Rowlands a Val Simmons. Pleidleisiodd y canlynol yn erbyn: y Cynghorwyr Ivor Beech, Ann Davies, Rob Williams a Bleddyn Williams. Fe wnaeth y Maer atgoffa'r Aelodau fod y mater hwn wedi'i gau yn awr am 6 mis o leiaf.

**7. Gohebiaeth gan:**

**a. Adroddiadau'r Maer a'r Dirprwy Faer**
Roedd y Maer wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod a gofynnodd a oedd gan unrhyw aelodau gwestiynau. Cyfeiriodd yn benodol at lwyddiant y Farchnad Gymunedol ddiwethaf ac fe wnaeth atgoffa'r Aelodau y gallent ystyried mynychu'r farchnad gan ei bod yn gyfle da i gyfarfod preswylwyr lleol a thrafod materion gyda nhw.
**Derbyniwyd yr adroddiad**

Roedd y Dirprwy Faer wedi dosbarthu ei adroddiad hefyd a rhoddodd ddiweddariad i'r Aelodau am y sefyllfa yn ymwneud â'r ffaith nad yw bysiau Arriva bellach yn aros ar safle Tweedmill a bod yn rhaid i bobl ddefnyddio'r arosfan ar y ffordd fawr brysur. Roedd yn croesawu'r gefnogaeth roedd wedi'i derbyn gan yr Aelod Seneddol a'r Aelod Senedd lleol, ac Aelod Cabinet Trafnidiaeth CSDd, sef y Cynghorydd Barry Mellor. Y gobaith yw y bydd Arriva yn ailedrych ar y sefyllfa yn y dyfodol agos. Llongfarchwyd y Cynghorydd Simmons am ei gwaith ar y mater hwn.
**Derbyniwyd yr adroddiad.**

**b. Adroddiad Clerc y Dref a Diweddariad ar Gynllun y Dref.**
Roedd y Clerc wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod a darllenodd y gwahanol eitemau o ohebiaeth a'r diweddariadau am brosiectau yng nghynllun y dref.
Trafodwyd sawl elfen ar yr adroddiad – yn benodol:-

- Cynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin, cynrychiolydd y dref ar Dwristiaeth Gogledd Cymru, y dylai'r Cyngor wahodd y Prif Swyddog Gweithredol, Jim Jones, i un o gyfarfodydd y cyngor yn y dyfodol. **Penderfynwyd**.
- Derbyniwyd neges e-bost yn gofyn a oedd gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer y tir gerllaw cerfluniau'r Marchogion. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am benderfyniad blaenorol i beidio â mynd ar ôl unrhyw gynlluniau i'r Cyngor ddod yn berchen ar yr ardal hon ac fe wnaethant gytuno i barhau felly. **Penderfynwyd**.
- Derbyniwyd neges e-bost yn gofyn a fyddai'n bosibl i Gyngor y Dref gymryd camau i dacluso'r tir ger yr eglwys, yr ardal a elwir yn 'the piggery'. Mae'r tir yn nwylo preifat ac nid oes gan Gyngor y Dref unrhyw bwerau i weithredu.
- Hysbyswyd yr aelodau bod CSDd wedi trafod adroddiad am gau toiledau cyhoeddus yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu CSDd yn gynharach y diwrnod hwnnw. Dywedodd y Cynghorydd Ann Davies, Cynghorydd Sir Rhuddlan, nad oedd unrhyw beth wedi'i benderfynu ac y byddai'r pwyllgor craffu yn ailedrych ar y mater yn y dyfodol. Dywedodd y Maer y byddai'r cynigion hyn i gau toiledau cyhoeddus yn mynd yn groes i nodau corfforaethol CSDd ond roedd yn cydnabod nad yw darparu toiledau cyhoeddus yn wasanaeth statudol. Cytunodd yr Aelodau y dylid ysgrifennu llythyr i'r Cyngor Sir yn amlinellu pryderon cyngor y dref ynglŷn â'r mater hwn. **Penderfynwyd**.

**8. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**
Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi dosbarthu ei adroddiad ysgrifenedig at sylw'r Aelodau.
Yn benodol, trafododd yr Aelodau yr eitem ar y broblem ddraenio ar y Ffordd Newydd a'i hagosrwydd at ffos y dref, byddai draeniau Ffordd Ffrainc (A5151) yn cael eu clirio yn y

dyfodol agos, a chynhelir sesiwn casglu sbwriel arall ar 16 Mawrth pan fydd swyddog o Cadwch Gymru'n Daclus yn bresennol. Mynegwyd pryderon am hyn o ran sefyllfa'r llanw, a phwysleisiwyd yr angen i fod yn wyliadwrus wrth lunio asesiad risg.
**Derbyniwyd yr adroddiad**
Rhoddodd y Cynghorydd Ann Davies ddiweddariad llafar i'r Aelodau ynglŷn â'r ffaith bod CSDd wedi trwsio'r ffens ger cylchffordd y clwb golff, roedd CSDd wedi trwsio tyllau yn y ffordd hefyd yn unol â'r canllawiau mesur tyllau yn y ffordd, a bydd y contractwyr sy'n gosod pibellau nwy newydd yn ardal Ffordd Ganol yn tacluso'r tir ar ôl gorffen y gwaith.
**Derbyniwyd yr adroddiad**

**9. Gweithgor y Llyfrgell a'r Amgueddfa**
Roedd cylch gorchwyl y gweithgor newydd hwn wedi'i ddosbarthu i'r aelodau.
Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid sefydlu gweithgor, eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd**.
Wrth ystyried aelodaeth y gweithgor, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y dylid cynnig enwau'r Cynghorwyr Gareth Rowlands, Val Simmons, Mike Kermode, ac Ivor Beech ar gyfer y dasg hon. Eiliwyd gan y Cynghorydd Val Simmons. **Penderfynwyd.**
Yn rhinwedd ei rôl fel Cynghorydd Sir, dywedodd y Cynghorydd Ann Davies wrth yr Aelodau fod CSDd wedi sefydlu gweithlu llyfrgelloedd ar gyfer y sir ac awgrymodd fod Rhuddlan yn anfon cynrychiolydd. Nid oedd yr aelodau wedi derbyn unrhyw wybodaeth am y gweithlu hwn, a gofynnwyd i'r Cynghorydd Davies roi manylion am y gweithgor sirol hwn fel bod modd ystyried y mater. **Penderfynwyd.**

**10. Newidiadau i Wasanaeth Ailgylchu Gwastraff CSDd**
Roedd y Clerc wedi rhannu gwybodaeth i'r Aelodau am y system casglu gwastraff "trolibocs" newydd a fydd yn cael ei lansio yng nghanol 2024. Nodwyd y gall pobl â phroblemau symudedd ofyn am gymorth gyda'u casgliadau drwy gysylltu â CSDd.

**11. Grŵp Cymunedol Rhuddlan**
Roedd y Clerc wedi rhannu manylion cais gan Grŵp Cymunedol Rhuddlan am gymeradwyaeth y Cyngor i greu gardd goffa a gosod meinciau mewn rhan o Gae'r Llyngesydd ger Llwybr Cae'r Llyngesydd a Chlos Hendre. Bydd yn cymryd lle'r ardd goffa wreiddiol yng nghae chwarae Coetiau Postol er cof am breswylwyr Rhuddlan a gollodd eu bywydau yn ystod pandemig Covid ac er mwyn cydnabod y gweithwyr rheng-flaen yn ystod y pandemig. Y bwriad yw plannu dwy goeden geirios sy'n blodeuo a blybiau, ailosod y plac gwreiddiol, ac adnewyddu'r cynhwysydd plannu sydd ar y safle.
At hyn, bydd y ddwy fainc sydd wedi'u symud o'r ardd goffa wreiddiol yn cael eu gosod rhwng y gampfa awyr agored a'r cae pêl-droed, yn wynebu Ffordd y Rhyl.
Cytunodd yr Aelodau i'r cais. **Penderfynwyd**.

**12. Cyfarfod Arbennig i drafod Cŵn yn Baeddu, 6 Mawrth**

Fe wnaeth y Cynghorydd Arwel Roberts adrodd yn ôl i'r Aelodau am syniadau i fynd i'r afael â'r broblem. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Gofyn i'r gweithredydd teledu cylch cyfyng fonitro achosion o gŵn yn baeddu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth
- Ymgysylltu â phobl sy'n mynd â chŵn am dro i nodi'r problemau
- Chwilio am offer gwell i rannu bagiau baw ci – herio cwmni pren Meifod i ddylunio rhywbeth addas.
- Chwistrellu baw ci â phaent er mwyn annog perchnogion cŵn i godi'r baw.
- Defnyddio sticeri i atgoffa pobl sy'n mynd â chŵn am dro y gellir rhoi'r baw yn y biniau sbwriel.
- Hyrwyddo'r ffaith bod angen gorfodi hyn gan nad oes gan CSDd swyddogion gorfodaeth.

**Penderfynwyd – cefnogi'r cynigion hyn**.

**13. Cynllunio**

Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau a dderbyniwyd.

Fe wnaeth y Cynghorydd Arwel Roberts ddatgan buddiant gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio CSDd.

44/2023/0874 – dymchwel byngalo a garej bresennol a chodi eiddo deulawr yn Edgefield, Eton Park, Rhuddlan. **Dim gwrthwynebiad**

44/2023/0783 – codi eiddo ar wahân ar dir gerllaw'r fynedfa i'r fynwent, Stryd yr Eglwys, Rhuddlan. Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith bod y cais hwn yn cael ei gyflwyno am yr ail waith a'u bod wedi gwrthwynebu'r cais yn wreiddiol ar y sail ei fod yn agos at yr eglwys ac adeiledd y porth, ei fod yn cael ei ystyried yn orddatblygiad yn yr ardal, pryderon ynglŷn â'r effaith ar breswylwyr lleol, a materion yn ymwneud â mynediad i'r safle. Ar ôl ystyried y mater, cytunodd yr Aelodau i wrthwynebu unwaith yn rhagor ar y sail uchod.

**Gwrthwynebu.**

**14. Y Gyllideb a Materion Ariannol**

**a.** Roedd y Maer a'r Clerc wedi cyfarfod trefnydd Gŵyl RhuddFest fel y gytunwyd gan y Cyngor ym mis Chwefror oherwydd pryderon am gefnogi digwyddiad masnachol.

Fe wnaeth y Cynghorydd Rob Williams ddatgan buddiant rhagfarnus.

Mae'r cais yn gofyn am £5,000 yn bennaf tuag at ddarparu llwyfan Cymraeg/Cymreig.

Cynigiodd y Cynghorydd Mike Elgin na ddylid rhoi grant gan na ddylai arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio i gefnogi digwyddiad masnachol. Eiliwyd gan y Cynghorydd Ann Davies.

**Penderfynwyd.**

**b.** Cyfeiriodd Aelod at y ffaith ei bod yn anodd torri'r gwrych gan fod y cynhwysydd plannu ym mhen draw'r Ffordd Newydd yn achosi rhwystr. Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiodd y Cynghorydd Mike Kermode y dylid ysgrifennu llythyr i CSDd gan fynegi pryderon y contractwr sy'n torri'r gwrych ac o ystyried cyflwr gwael y cynhwysydd plannu y dylai Cyngor y Dref ofyn am ei symud o'r ffordd**. Penderfynwyd**

Dywedodd y Clerc fod y gwaith i uwchraddio goleuadau'r ardal chwaraeon amlbwrpas (MUGA) wedi costio £9,212.36 felly roedd hyn yn arbediad bach ar y gyllideb o £10,000.

Mae premiwm yswiriant y Cyngor wedi aros yr un fath â'r llynedd.

Mynegodd un Aelod ei bryderon am y taliad rheolaidd ar gyfer contract y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y Clerc ei fod yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor gael gwefan ond nid oedd perfformiad y contractwr presennol yn foddhaol bob amser felly roedd angen adolygu hyn.
Yna cynigiodd y Cynghorydd Gareth Rowlands, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, y y dylid talu'r Rhestr o Daliadau Dyledus. **Penderfynwyd.**
**c**. Adolygu a Chymeradwyo rheoliadau ariannol y Cyngor – roedd angen gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â'n Harchwiliad Mewnol. Darllenodd y Clerc y newidiadau a oedd yn cael eu cynnig, gan gynnwys dyddiad cyflwyno'r praesept i CSDd. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Rowlands. **Penderfynwyd.**
**d**. Bydd y Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chyflogau yn awr yn ymddangos ar raglen cyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill i'w cymeradwyo gan y bydd y pwyntiau cyflog newydd yn dechrau ym mis Ebrill.
Fe wnaeth yr Aelodau ddiolch i'r Clerc am ei waith gwych ar y materion uchod.

**15. Materion Cymunedol**
Roedd y Cynghorydd Jackie Burnham wedi rhoi gwybod cyn y cyfarfod fod plentyn wedi mynd yn sownd yn y ffens sy'n amgylchynu Cae'r Llyngesydd ar nos Fawrth. Roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi dod yno i ryddhau'r plentyn drwy blygu un o byst metel fertigol y ffens. Nid oedd rhagor o fanylion ar gael. Roedd y Clerc Cynorthwyol wedi ymweld â'r safle y bore yma ac wedi sylwi ar rywfaint o ddifrod i'r ffens ac roedd wedi gofyn am wasanaeth Brian Jackson i blygu'r postyn metel fertigol i'w siâp gwreiddiol, ac roedd hyn bellach wedi'i wneud. Mewn ymateb i sylw Aelod, dywedodd fod canllawiau'r RoSPA yn cyfeirio at faint y bwlch rhwng y pyst fertigol a bod y ffens hon yn cydymffurfio â'r canllawiau.
Roedd y Cynghorydd Ivor Beech yn dymuno cyfleu pryderon busnesau lleol ynglŷn â'r gwasanaeth casglu gwastraff newydd sy'n dechrau ym mis Mehefin 2024. Nodwyd bod CSDd wedi dosbarthu taflenni ac fe wnaeth yr Aelodau drafod y ffaith y gall busnesau dendro ar gyfer y gwasanaeth hwn gan gasglwr gwastraff trwyddedig. Gan fod Cyngor y Dref yn cael ei drethu fel busnes byddwn yn adolygu ein contract casglu gwastraff presennol gyda CSDd pan ddaw i ben.
Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts wedi rhoi gwybod i'r Ganolfan Gymunedol am y gwasanaeth casglu gwastraff newydd hwn ac wedi hysbysu CSDd am hyn.

**Rhan 2 Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd**
Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

Rhoddwyd y gorau i recordio'r sain.

**16. Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024**

Fe wnaeth y Maer grynhoi cofnodion y cyfarfod gan gyfeirio'n benodol at werthusiad y Clerc. Cafwyd adroddiad llafar am hyn yn y cyfarfod blaenorol.
Derbyniwyd y Cofnodion. **Penderfynwyd**

Fe wnaeth y Clerc atgoffa'r Aelodau y cynhelir tri digwyddiad hyfforddiant bioamrywiaeth ym mis Ebrill, mis Gorffennaf, a mis Medi. Bydd hyfforddiant mis Ebrill ar thema ymwybyddiaeth a chytunwyd y caiff ei gynnal am 6.30pm cyn cyfarfod mis Ebrill y cyngor. **Penderfynwyd.**

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 11/4/2024 am 6.30pm hyfforddiant codi ymwybyddiaeth am bioamrywiaeth**

**11/4/2024 – Cyfarfod Llawn y Cyngor am 7pm**

**Llofnodwyd …………………………………………………………………………………..Y Cynghorydd Mike Kermode (Maer)**